Frân Wen

Theatr i'r ifanc yw Cwmni'r Frân Wen sy'n elusen gofrestredig. Mae'n cyffroi, herio ac ysbrydoli drwy greu celfyddyd sy'n ysbrydoli'r dychymyg, y meddwl a'r galon ac sy'n dathlu rhyfeddod y byd. Mae'r theatr yn seiliedig ar ddyheadau plant a phobl ifanc ac yn greiddiol I ddatblygiad strategol y cwmni. Mae'r gwaith yn uchelgeisiol, blaengar a pherthnasol.

Roedd y Cwmni'n awyddus i gydweithio gyda Social Value Cymru i fesur un o'i brosiectau ac i wreiddio gwerth cymdeithasol ar draws ei holl weithgareddau a chynlluniau. Mae prosiect Fi di Fi yn gyfrwng mynegiant i warchod hunan lês plant a phobl ifanc. Roedd yn golygu gweithio'n agos gydag ysgolion, staff, nyrsus ysgol a chwnselwyr,

Canlyniadau'r adroddiad

- **Nododd 60% o blant a phobl ifanc welliant yn eu hunan hyder**
- **Nododd 40% well hyder yn beth gallant ei wneud**
- **Nododd 40% eu bod yn teimlo'n fwy positif am y dyfodol**
- **Nododd 40% welliant yn eu hunan barch**

Rydym wedi mwynhau gweithio gyda Eleri a'r tîm i ddarganfod a herio gwerth *Fi Di Fi*.

Rydym wedi mwynhau dysgu am werth cymdeithasol a'r ffordd mae pwysigrwydd hyn yn gwau trwy brosiect *Fi Di Fi,* a hefyd gwahanol ffyrdd o fesur hyn.

Roeddem wrth ein bodd gyda'r darganfyddiad bod gwerth ariannol o £3.76 yn cael ei roi yn ôl i gymdeithas am bob £1 o fuddsoddiad yn y cwmni, ond hefyd o fod wedi gallu profi bod newidiadau positif wedi digwydd i gyfranogwyr y prosiect o ran hunan hyder, hunan barch a theimladau positif am y dyfodol.

Gydag arweiniad a darganfyddiadau terfynol a'r rhai yn ystod y broses yma gyda chi, rydym wedi cael cyfle i weld pa elfennau o'r prosiect sy'n llwyddiannus, ac i adeiladu ar rheiny, ond hefyd, pa elfennau oedd ddim mor llwyddiannus, a sut y gallwn wella. Rydym wedi darganfod ffordd ymlaen gadarn i'r prosiect yn y dyfodol wrth allu gweld yn gliriach y gwerth sy'n cael ei greu o wahanol ddynesiadau i'r gwaith.

Mari Morgan
Mentor Creadigol

svc@mantellgwynedd.com

www.mantellgwynedd.com /social-value-cymru.html